**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Mai 2026 yn Neuadd y Dref, Dinbych am 6.30yh**

**Yn bresennol:** Cynghorwyr Ruth Griffiths, Pauline Edwards, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle, Gaynor Morgan-Rees, Pip Stevens, Rob Davies a Matthew Jones.
Jo Davies (Clerc Tref Dinbych) a'r Barnwr Anrhydeddus Mike Baker.
Y Parchg Dan Morgan, Stuart Owen (Marsial Dinesig), Peter Glynn a Mike Andrews (Swyddogion Dinesig).

Cyn dechrau'r cyfarfod darllenodd y Cynghorydd Roy Tickle y trefniadau diogelwch ac yna croesawodd bawb i'r cyfarfod.

1. **Gweddi Agoriadol** – Rhoddodd Caplan y Maer, y Parchg Dan Morgan, weddi agoriadol i ddechrau'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Sylvia Jennings, Lara Pritchard a Sioned Garrod.
3. **Anerchiad y Maer** – Darllenodd y Cynghorydd Ruth Griffiths ei haraith ar ran Cyngor Tref Dinbych.
4. **Ethol Maer (Blwyddyn Ddinesig 2026-2027) –**
   Gofynnodd y Maer Etholedig, y Cynghorydd Ruth Griffiths, am enwebiadau ar gyfer swydd y Maer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026-2027.

Cynigiodd y Cynghorydd Pauline Edwards y Cynghorydd Ruth Griffiths, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, a chytunwyd ac fe'i derbyniwyd drwy godi dwylo fod y Cynghorydd Ruth Griffiths yn cael ei hethol yn Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026-2027.

**4.1** Datganodd y Cynghorydd Pauline Edwards fod y Cynghorydd Ruth Griffiths wedi ei hethol yn Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026-2027.

**4.2** Darllenodd a llofnododd y Maer, y Cynghorydd Ruth Griffiths, y Datganiad Derbyn Swydd ym mhresenoldeb Clerc Tref Dinbych, Jo Davies, y Barnwr Anrhydeddus Mike Baker, y Cynigydd Cynghorydd Pauline Edwards a'r Eilydd Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle.

5. **Pleidlais o ddiolch** – Rhoddodd y Maer, y Cynghorydd Ruth Griffiths, ei haraith yn Gymraeg ac yn Saesneg a chadarnhaodd y byddai'n cyflawni rôl y Maer yn briodol ac yn ffyddlon hyd eithaf ei barn a'i gallu yn ystod y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod.

Diolchodd y Cynghorydd Ruth Griffiths hefyd i'w chyd-gynghorwyr ynghyd â diolch arbennig i'r Cynghorydd Pauline Edwards, y Cynghorydd Roy Tickle a'r Cynghorydd Gaynor Wood-Tickle am eu cefnogaeth dros y 12 mis diwethaf, gan sicrhau llwyddiant y digwyddiadau Tân Gwyllt a'r Nadolig.

6. **Anerchiad y Maer –**
   Rhoddodd y Cynghorydd Ruth Griffiths ei haraith yn amlinellu ei dyheadau ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod a datgan ei helusennau dewisol sef Prosiect Ieuenctid Dinbych a chyfarpar synhwyraidd Ffrindiau Ysgol y Parc.

Amlinellodd y Cynghorydd Ruth Griffiths bwysigrwydd cymuned Dinbych a pha mor bwysig yw gweld Dinbych yn ffynnu.

7. **Ethol Dirprwy Faer (2026-2027)**
   Gofynnodd y Cynghorydd Ruth Griffiths am enwebiadau ar gyfer Dirprwy Faer. Cynigiodd y Cynghorydd Pip Stevens y Cynghorydd Pauline Edwards, ac eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd Roy Tickle. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill a chytunwyd drwy godi dwylo gan yr holl gynghorwyr.

**7.1** Datganodd y Cynghorydd Ruth Griffiths fod y Cynghorydd Pauline Edwards wedi ei hethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026-2027.

**7.2** Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd Pauline Edwards y datganiad ym mhresenoldeb y Barnwr Anrhydeddus Mike Baker, y Cynghorydd Pip Stevens, y Cynghorydd Roy Tickle a Chlerc Tref Dinbych, Jo Davies.

8. **Cofnod presenoldeb cynghorwyr ar gyfer y flwyddyn 2025-2026.**
   Diolchodd Clerc y Dref, Jo Davies, i'r holl gynghorwyr am eu hymrwymiad a rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i'r Cynghorwyr Ruth Griffiths a Pauline Edwards am fynychu 100% o holl gyfarfodydd y Cyngor yn ystod y Flwyddyn Ddinesig 2025-2026.
9. **Polisïau**
   Cadarnhaodd Jo Davies, drwy godi dwylo gan y cynghorwyr tref, fod y polisïau canlynol wedi eu cadarnhau'n ffurfiol yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 23 Mawrth 2026:

- Rheolau Sefydlog
- Rheoliadau Ariannol
- Cod Ymddygiad
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Rhan 1, Adran 6 Dyletswydd

a bod ymrwymiad y Cyngor yn parhau.

10. Penodi Caplan y Maer ar gyfer y flwyddyn 2026-2027
    Cyhoeddodd y Maer, y Cynghorydd Ruth Griffiths, mai ei chaplan dewisol ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2026-2027 fyddai'r Parchg Dan Morgan o Eglwys y Santes Fair, Dinbych.
11. Dyddiad y Gwasanaeth Dinesig
    Cadarnhaodd y Maer, y Cynghorydd Griffiths, y byddai ei Sul Dinesig yn cael ei gynnal yn Eglwys y Santes Fair ddydd Sul 12 Gorffennaf 2026.
12. Gweddi Gloi – Caplan y Maer
    Rhoddodd y Parchg Dan Morgan weddi gloi i ddod â'r cyfarfod i ben.

Caeodd y Maer, Ruth Griffiths, y cyfarfod am 6:57yh.

Gwahoddodd y Maer, y Cynghorydd Griffiths, yr urddasolion a'r gynulleidfa i ymuno â hi a'i chyd-gynghorwyr am luniaeth ar ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………………………………………Dyddiad:
………………………………………………